

## Gair gan y Prifathro

Cymeraf y cyfle i ddiolch am eich cefnogaeth yn ystod y tymor hwn. Eleni eto, mae wedi bod yn braf iawn gweld disgyblion o bob oedran yn rhyngweithio gyda'i gilydd ar draws yr ysgol gyfan, ac mae gweld hyn ar waith yn parhau i roi gwefr i mi fel Prifathro balch yr ysgol.  Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll fel teulu ac edrychwn ymlaen yn fawr fel ysgol i barhau i gydweithio fel un gymuned yn y flwyddyn newydd.

## Taith Llangrannog i flwyddyn 7

Roedd cyffro mawr ar ddydd Mercher yr 20fed o Fedi wrth i ddisgyblion blwyddyn 7 deithio i wersyll yr Urdd yn Llangrannog. Cafodd y disgyblion modd i fyw yn gwneud y gweithgareddau. Roedd y bag neidio yn boblogaidd iawn gyda'r disgyblion yn mwynhau neidio oddi ar y platfform uchel a glanio ar y bag aer. Roedd Mrs. Facey wedi wynebu'r her hefyd ar ôl llawer o gefnogaeth gan bawb! Roedd hefyd angen llawer o ddewrder i wneud y weiren zip – roedd y disgyblion yn wên o glust i glust wrth iddyn nhw wibio trwy'r awyr.

Roedd y cwrs rhaffau uchel wedi diddanu pawb ac roedd rhai disgyblion wedi dyfalbarhau ac wedi llwyddo er gwaethaf eu hofn uchder– da iawn chi! Roedd mynd i'r pwll nofio cynnes yn y tywydd oer hefyd yn braf.

Gyda'r hwyr, roedd gweithgareddau'r nos yn gyfle i'r disgyblion wneud pethau gwahanol. Ar y noson gyntaf, roedd pawb wedi gwario ffortiwn yn y siop. Yna, cawson nhw fodd i fyw wrth gwblhau gweithgareddau chwaraeon gyda'r swogs cyn gwneud bach o ddawnsio yn y twmpath. Ar yr ail noson, cerddon nhw dros y mynydd a draw i draeth Llangrannog.

Roedd y bwyd hefyd yn uchafbwynt gyda llawer o brydau bendigedig megis lasagne, *goujons* cyw iâr, pasta ac, wrth gwrs, sglodion! Neis hefyd oedd cael sgwash a chreision.

Erbyn cyrraedd yn ôl i'r ysgol ar brynhawn Gwener roedd pawb wedi blino'n lân ond wedi cael amser arbennig o dda yn y gwersyll ger y lli. Mae diolch mawr yn mynd i'r athrawon a'r swogs am ofalu am y disgyblion a hefyd wrth gwrs i Mrs. Bradberry a Mrs. Cory am drefnu.






## Hwyl yr Wyl

Cafwyd cinio Nadolig hyfryd gan staff y gegin eleni eto ac roedd siwmperi Nadolig y disgyblion werth eu gweld.






Ar yr 20fed o Ragfyr cynhaliwyd gwasanaeth yn Neuadd Chwaraeon yr ysgol lle daeth rhieni a ffrindiau ynghyd i wrando ar eitemau cerddorol, cyflwyniadau, dawns a darlleniadau gan ddisgyblion ar draws yr ysgol. Roedd hi'n noson hyfryd ac yn ffordd arbennig o gloi tymor cyntaf prysur.








Aeth blwyddyn 5 a 6 i fwynhau yn Winter Wonterland yn ddiweddar gyda phawb yn cael hwyl a sbri yn cymdeithasu a sglefrio iâ! Hefyd roedd sioe Nadolig 'Hymbyg!' yn LLWYDDIANT ENFAWR gyda phob aelod o'r cast yn serennu. Diolch i bawb am eich ymdrechion a chefnogaeth.






Aeth blwyddyn 7 a 8 i fwynhau bowlio deg yn Nantgarw yn ddiweddar gyda phawb yn mwynhau'r cyfle i chwerthin, chwarae a mwynhau.



Hefyd cafodd blwyddyn 7 a 8 gyfle i fynychu sesiwn ffilm a gwylio 'Home Alone' - cyfle gwych i ddechrau teimlo yn Nadoligaidd!

## Coron Eisteddfod Rhondda Cynon Taf

Diolch yn fawr i Elan Rowlands o gwmni gof aur Neil Rayment am ddod i'r ysgol i wneud gweithdy gyda'n disgyblion. Yr ysgol sy'n noddi coron Eisteddfod Genedlaethol RhCT 2024 ac rydym yn gyffrous iawn i weld y goron yn cael ei datblygu gan Elan a Neil.







## Sioe Legally Blonde



Am brofiad bythgofiadwy! Ers mis Gorffennaf mae'r ysgol wedi bod yn gweithio'n ddiflino er mwyn cynhyrchu sioe 'Legally Blonde'. Mi oedd yn her i geisio cynnwys aelodau o'r ysgol Ganol hyd at yr Ysgol Hŷn ond erbyn i wythnos y sioe agosáu mi roedd pawb yn ysu i berfformio! Yn syml mae stori'r sioe yn seiliedig ar fywyd Elle Woods a'i bwriad i fynychu Aberystwyth er mwyn astudio'r gyfraith gyda'r gobaith o adennill ei chariad. Mi oedd yn sioe llawn mwynhad a chaneuon oedd yn codi'r ysbryd ac roedd yn fraint o allu bod yn aelod o griw mor frwdfrydig am gynhyrchu sioe! Roedd yn fraint i allu perfformio mewn cynhyrchiad mor gymunedol a chydweithio gyda disgyblion iau'r ysgol ac wrth gwrs fy nghyfoedion ym mlwyddyn 13. Roedd yn bleser i greu cymaint o atgofion ac mi fyddaf yn eu trysori am byth. Rwyf wedi bod yn ddigon ffodus o allu bod yn rhan o'r tair sioe gerdd mae'r ysgol wedi'u cynhyrchu yn ystod fy adeg yn Ysgol Garth Olwg ac roedd Legally Blonde yn berffaith fel fy sioe olaf yn yr ysgol hon. Rwyf yn hynod o ddiolchgar i bob aelod o staff am eu cymorth a'u hawydd i gynnal y sioe ac mi fyddaf yn cofio'r cyfleoedd yma am byth. Greta Hall Williams Bl13




## Diwrnod Pinc

Ar gyfer cynyddu’r bwrlwm ar gyfer y Sioe Legally Blonde gwnaethom gynnal Diwrnod Pinc diwedd Mis Medi. Roedd hyn ar gyfer hysbysebu’r Sioe yn ogystal â chodi arian ar gyfer cynnal y sioe a chronfa Eisteddfod Genedlaethol 2024. Roedd yn wych gweld yr ymdrech ar draws yr ysgolion.






## Bendibwmbwls

Diolch o galon i griw Cyw a Ben Dant am ddod i ffilmio gyda phlant blwyddyn 2 ar gyfer cyfres newydd gyffrous fydd yn ymddangos ar S4C yn fuan. Profiad gwych i’r disgyblion ac edrychwn ymlaen at eich gweld ar y sgrin yn fuan iawn.

## Sesiynau Samba Mark

Mae disgyblion blynyddoedd 9 a 10 sy’n astudio cerddoriaeth wedi cael profiadau gwych o ddysgu arddull cerddorol y Samba efo Mark Hibbert dros y tymor hwn. Maent wedi cael 3 sesiwn ac wedi cael y profiad o chwarae offerynnau taro amrywiol gan gynnwys y drwm samba, tambwrin a chlychau agogo. Mae’r disgyblion wedi gallu datblygu eu sgiliau ensemble wrth chwarae gyda’i gilydd yn yr arddull Samba. Cafwyd profiad o chwarae rhythmau cymhleth a dysgu am nodweddion yr arddull ac arbrofi gyda’r dechneg cwestiwn ac ateb. Hoffwn ddiolch i Wasanaeth Cerddoriaeth Rhondda Cynon Taf am drefnu hyn.



## Dechrau Canu Dechrau Canmol

Ar nos Fawrth glawog roedd grŵp o ddisgyblion ac athrawon wedi mentro i Theatr Soar, Merthyr ar gyfer bod yn rhan o noson Dechrau Canu Dechrau Canmol. Roedd hi’n noson ar gyfer codi ymwybyddiaeth i’r Eisteddfod Genedlaethol ac yn gyfle i gyd ganu gyda’n gilydd. Gwych oedd cael y cyfle i ddod at ein gilydd a chanu detholiad o emynau gan gynnwys Pantyfedwen a Dusseldrof. Bydd yr eitemau yn cael eu darlledu ar y rhaglen ar S4C yn fuan.



## Eisteddfodau lleol

Llongyfarchiadau enfawr i gôr Ysgol Garth Olwg am ennill y gystadleuaeth Côr dan 12 yn Eisteddfod y Cymoedd. Daethant yn gyntaf allan o 7 côr. Rydym yn falch iawn o'ch llwyddiant ysgubol! Llongyfarchiadau mawr hefyd i'r ensemble am gipio'r ail wobr.

Llwyddodd y Côr hefyd i ennill yr ail safle yn Eisteddfod y Rhondda a daeth Lani Jones, Blwyddyn 10 yn gyntaf yn y gystadleuaeth limrigau categori Ysgolion Uwchradd a Mr Edwards yn drydydd yn y categori agored. Roedd Anni Gwyn, Blwyddyn 5 hefyd wedi serennu trwy gipio'r wobr gyntaf yng nghystadleuaeth llenyddiaeth bl 6 ac iau yn ogystal â'r llefaru unigol. Roedd Sara Rees Roberts, Blwyddyn 11 hefyd wedi dod i'r brig yng nghystadleuaeth unawd sioe gerdd o dan 16. Da iawn bawb!













## Banc Bwyd

Diolch i'r staff a'r disgyblion a fu'n casglu bwyd ar gyfer y Banc Bwyd lleol eleni eto.



## Taith i Gastell Caerdydd


Ar ddiwrnod godidog o Hydref aeth criw o ddisgyblion blwyddyn 1 a 2 ar wibdaith i ymweld â Chastell Caerdydd. Cawsant ddiwrnod i'r brenin â thaith dywys ddiddorol iawn o amgylch y castell. Roedd hyn yn sbardun gwych i'n thema'r tymor hwn ar gestyll Cymru.



## Mewn Cymeriad

Cafodd ddisgyblion Blwyddyn 7 modd i fyw yn gwylio sioe Mewn Cymeriad gyda'r actor Llion Williams yn y sioe Taith yr iaith. Roeddent wedi dysgu llwyth am hanes yr iaith Gymraeg ar draws y canrifoedd.





## Sesiwn creu limrigau

Diolch i Tudur Dylan Jones am ymweld â'r ysgol i ddysgu disgyblion yr Ysgol Uchaf sut mae creu limrigau llwyddiannus. Edrych ymlaen at weld ffrwyth y gwaith yn Eisteddfod Genedlaethol RhCT 2024!

## Ymweld â'r Senedd

Ym mis Medi eleni fe gafodd Senedd ein hysgol ni gyfle i ymweld â Senedd Cymru ym Mae Caerdydd. Yno fe gafon ni'r cyfle i gael ein cyfarfod cyntaf fel Senedd Ysgol Garth Olwg yn siambr Tŷ Hywel, ble roedd y Senedd arfer cynnal eu cyfarfodydd nhw. Roedd hyn yn gyfle gwych i ni ddod at ein gilydd fel aelodau o bob fforwm a blynyddoedd ysgol. Cafodd llawer o faterion pwysig eu trafod yn ein hamser ni yno a chawson y cyfle i wylio sesiwn cwestiynau'r Prif Weinidog ar ein taith yno oedd yn hynod o ddiddorol ac addysgiadol. Roedd hi'n brofiad gwych i gael cynnal trafodaeth debyg fel ysgol er mwyn pleidleisio dros ba faterion yr ydym am flaenoriaethu eleni ac roedd yn gyfle i ddisgyblion o'r Ysgol Isaf hyd at yr Ysgol Hŷn godi eu llais a rhannu eu barn. Diolch mawr i'n hathrawon ni, Miss Rees a Miss Vye, am drefnu'r profiad anhygoel yma eto eleni! Edrychwn ymlaen at fedru cyd-weithio fel Senedd ysgol y flwyddyn hon. Mali Williams, bl 13.

## Cystadleuaeth Top of The Bench





Cafodd criw o'r Ysgol Uchaf y cyfle i fynychu cystadleuaeth Cemeg a drefnwyd gan Brifysgol Abertawe ar Ddydd Mercher y 13eg o Ragfyr. Bu rhaid i'r disgyblion gwblhau cyfres o gwisiau Kahoot gwyddonol ac adwaith cloc iodin i fesur cyfradd adwaith. Roedd y disgyblion wedi mwynhau'r gwaith arbrofol a chael profiad defnyddio offer anghyfarwydd a gwylio'r rownd derfynol yn narlithfa Taliesin.

Bydd hi'n wythnos 1 i'r disgyblion pan fyddwn yn dychwelyd yn Ionawr!

| Diwrnodau HMS |
|---|
| ~~Dydd Llun 4ydd o Fedi 2023~~ |
| ~~Dydd Mawrth 5ed o Fedi 2023~~ |
| ~~Dydd Gwener 6ed o Hydref 2023~~ |
| ~~Dydd Llun 20fed o Dachwedd 2023~~ |
| Dydd Llun 24ain o Fehefin 2024 |
| Dydd Llun 22ain o Orffennaf 2024 |

# Arweinwyr Garth Olwg 2023-2024



Arweinwyr Garth Olwg am y flwyddyn hon yw Mali Williams, Tom Hall Williams a Greta Hall Williams a'r Dirprwy Arweinwyr yw Megan Beasley, Catrin England a Grace Rogerson.

# Ymweliad Marcelle Dos Santos a Krissy Jenkins

Gorffennodd Bl.5 a 6 yr hanner tymor cyntaf yn gwneud gweithdy cerddorol yn cynhyrchu caneuon wedi'u hysbrydoli gan dwf cerddoriaeth Swing yn America yn ystod y 1930au. Cyflwynodd Marcelle hanes y gerddoriaeth, tra bod Krissy yn cyflwyno prif nodweddion y gerddoriaeth cyn iddynt gael cyfle i weithio ar Garage Band. Rhoddodd y gweithdy gyfle i ddisgyblion ddathlu effaith a phwysigrwydd y gerddoriaeth i Americanwyr Du yn y 1930au.





# Cerddorfa Ysgolion Cymraeg De Cymru

Cafodd offerynwyr Ysgol Garth Olwg ddau ddiwrnod gwych yn fod yn rhan o Gerddorfa Ysgolion Cymraeg De Cymru. Roedd hyn yn brosiect a ddechreuodd llynedd gydag Ysgolion Cymraeg Caerdydd ond cafodd ei ymestyn eleni a braint oedd bod yn rhan. Cafwyd y cyfle i ddysgu darnau o gerddoriaeth Ffilm - Pirates of the Carribean a Star Wars i gerddoriaeth Ramantaidd - Peer Gynt yn ogystal â cherddoriaeth gyfoes Coldplay. Ar ôl diwrnod llawn o ymarfer ym Mhlasmawr, cafwyd diwrnod o ymarfer yn Neuadd Hoddinott yng Nghanolfan y Mileniwm cyn cael y cyfle i berfformio yno ar gyfer y gyngerdd. Roedd hyn wir yn brofiad gwych a hoffwn ddiolch yn fawr i Mr Rhydian Lake am drefnu'r holl brosiect a phleser oedd bod yn rhan.





## Gweithdai Gwasanaeth Cerddoriaeth RhCT

Dros yr wythnosau diwethaf mae'r disgyblion wedi cael cyfle i fod yn rhan o weithdai cerddorol sy'n cael eu trefnu gan Wasanaeth Cerddoriaeth y Sir. Cafodd y disgyblion y cyfle i fod yn rhan o weithdy Jazz, Telynau, Llinynnol a hefyd y Celfyddydau Perfformio. O ganlyniad i'r rhain mae'r disgyblion wedi bod yn perfformio yn y Theatr yn Nhreorci ac mae'r gwasanaeth yn trefnu cyngerdd i gloi'r tymor ar yr 8fed o Ragfyr. Gwych yw gweld y disgyblion yn mentro a datblygu eu sgiliau ensemble drwy gymryd rhan yn y gweithdai hyn.



## Ffair Nadolig Canolfan y Gydol Oes

I ddechrau'r dathliadau Nadolig cafodd yr Ysgol y cyfle i berfformio yn Ffair Nadolig Canolfan Garth Olwg. Roedd hyn yn ffordd wych o ddechrau dathliadau'r Nadolig a pherfformio o fewn y gymuned. Canodd aelodau'r Côr y clasuron sef Gŵyl y Baban a Hyfryd Ddydd i enwi ychydig a braf oedd clywed y Telynorion yn perfformio yn ogystal. Roeddent wedi perfformio deuawd a thriawd o Fedli Carolau yn ogystal â darnau unawdol.



## Dydd y Cofio

Ar gyfer Dydd y Cofio penderfynodd y Fforwm Cydraddoldeb ei fod yn ddigwyddiad pwysig i'w nodi. Penderfynon greu arddangosfa o babïau gwahanol i godi ymwybyddiaeth. Braf oedd cydweithio fel ysgol gyfan ar gyfer hyn, gyda dosbarthiadau'r Ysgol Isaf yn llwyddo i greu gweithiau celf arbennig a'r Ysgol Ganol ac Uchaf wedi creu pabïau deniadol. Cafodd hyn eu harddangos yng Nghanolfan Garth Olwg i nodi'r digwyddiad.





## Llysgenhadon y Coleg Cymraeg

Llongyfarchiadau i Greta Williams a Mali Williams ar gael eu hethol yn llysgenhadon y Coleg Cymraeg eleni er mwyn rhannu gwybodaeth am fanteision addysg prifysgol cyfrwng Cymraeg.

| Dyddiadau Tymor Ysgol | Dechrau | Gorffen |
|---|---|---|
| ~~1 (Hydref 2023)~~ | ~~04/09/2023~~ | ~~27/10/2023~~ |
| ~~2 (Hydref 2023)~~ | ~~06/11/2023~~ | ~~22/12/2023~~ |
| 3 (Gwanwyn 2024) | 08/01/2024 | 09/02/2024 |
| 4 (Gwanwyn 2024) | 19/02/2024 | 22/03/2024 |
| 5 (Haf 2024) | 08/04/2024 | 24/05/2024 |
| 6 (Haf 2024) | 03/06/2024 | 22/07/2024 |



## Plant mewn Angen

Cododd yr ysgol cryn dipyn o arian trwy gefnogi'r achlysur blynyddol Plant mewn angen. Gwisgodd y disgyblion ddillad lliwgar i'r ysgol a chynhaliwyd nifer o weithgareddau hwyl yn ystod y dydd fel gemau, peintio wynebau, stondinau losin ac ati.






## Disgo Cymreictod

Ychydig wythnosau nôl mwynheuodd ddisgyblion yr Ysgol Isaf ddisgo arbennig i ddathlu ein Cymreictod. Diolch yn fawr i Gymdeithas Gymuned Garth Olwg am drefnu noson hwyliog iawn i'r plant.




## Llwyddiant tennis



Llongyfarchiadau mawr i Harper Lee a thîm tennis De Cymru am ennill y wobr efydd yng nghystadleuaeth Cwpan y sir yn Lloegr yn ddiweddar. Rydym yn falch iawn o dy lwyddiant arbennig.

**Dilynwch ni ar Twitter :**
**@garth_olwg | @TE_Prifathro | @OlwgPontio @GarthOlwg_Canol | @GarthOlwg_Hyn | @GarthOlwg_Isaf | @IechydaLlesGO | @AddGorffGO | @mathgarth | @GarthOlwg_AwyrA | @SaesnegGO @OlwgPontio @adranYGymraegGO | @DaearGO | @DramaOlwg | @CelfyddydauYGO | @IRhGarth |@GwyddGarth | @CelfGarth |@PwyllgorEcoGO @DyniaethauGO | @GarthOlwg_DaTh |@CerddoriaethGO**

## Taith Gwyddorau Meddygol



Cafodd ddosbarth 13 Gwyddorau Meddygol y cyfle i fynychu taith o labordy histopatholeg Ysbyty Athrofaol Cymru ar yr 17eg o Dachwedd. Roedd yn hynod o ddiddorol i gael gweld yr holl gamau angenrheidiol wrth baratoi sleidiau histolegol o samplau cleifion. Roedden ni'n lwcus iawn cael siarad gyda'r staff i ofyn cwestiynau ac rydyn ni'n ddiolchgar iawn iddyn nhw am eu hamser. Mae hwn wir wedi helpu ni i ddeall beth sy'n mynd ymlaen mewn labordy clinigol. Diolch yn fawr iawn i Tracey o'r ysbyty am ein gwahodd.

## Taith Hanes ac Addysg Grefyddol i Lundain

Cafodd y disgyblion sy'n astudio'r Hanes ac Addysg Grefyddol yn yr Ysgol Uchaf a Hŷn modd i fyw ar daith i Lundain ym mis Rhagfyr. Ar ôl gadael yr ysgol (am bump o'r gloch!), gwibion ni lawr yr M4 ac ar ôl gorffwys byr yn y gwasanaethau roedden ni'n barod ar gyfer y gweithgareddau cyntaf: *Churchill War Rooms* ar gyfer yr haneswyr ac Abaty San Steffan ar gyfer disgyblion astudiaethau crefyddol. Diddorol oedd cael darganfod yr ogof o swyddfeydd ac ystafelloedd ble roedd cymaint o benderfyniadau pwysig yn ystod y rhyfel wedi cael eu gwneud. Roedd yr abaty heb os yn ysblennydd ac mae'n anodd credu cymaint o feddi sydd yno.
Ar ôl hyn roedd hi'n amser i fwyta felly cinio yn *Covent Garden* oedd ar y fwydlen gyda nifer yn mwynhau bwrger yn y *Shake Shack*. Yn y prynhawn, aeth yr haneswyr i'r Imperial War Museum. Heb os yr uchafbwynt oedd yr arddangosfa newydd *Spies, Lies and Deception* yn siarad am y gwrthdaro yng Ngogledd Iwerddon. Ymwelodd y disgyblion Addysg Grefyddol â Chanolfan Tibetaidd a chawsant gyfle i fyfyrio ac roedd hyn yn brofiad heddychlon iawn. Gyda'r nos cawsom gyfle i fynd i Ŵyl y Gaeaf ym Mharc Hyde. Cawsom hwyl a sbri yn bwyta churros ac yn gwibio ar y *roller coasters*. Cyn bo hir roedd hi'n amser i adael ac roedd pawb wedi blino'n lân wrth i ni gyrraedd yr ysgol. Hoffai'r disgyblion ddiolch i Miss. Higgins a Mrs. Thompson am drefnu'r daith.





## Taith Safon Uwch Cymraeg i Lan-llyn



Yn gynnar ar fore dydd Mercher, yr 22ain o Dachwedd, teithiodd pedwar disgybl Safon Uwch Cymraeg i ogledd Cymru i gymryd rhan mewn tridiau o weithgareddau a darlithoedd hynod o ddiddorol. Cawsom gyfle i brofi traddodiadau a diwylliant Cymreig, wrth ddawnsio twmpath a chanŵio ar lyn Tegid! Lwcus iawn wnaeth neb gwympo mewn! Ein hoff ddarlith oedd y sesiwn am y chwedl Branwen, wrth i ni ddysgu am y trasiedi mewn cyd-destun hollol wahanol a defnyddiol i'r cwrs. Yn hwyr ar nos Iau, profon uchafbwynt y daith, wrth i'r ugain ysgol o bob cwr o'r wlad gystadlu yn Nhalwrn y Beirdd. Roedd angen ysgrifennu parodi o gerdd, limrig a chân wreiddiol. Ar ôl cystadlu brwd tan ganol nos, nid ennill oedd hanes Ysgol Garth Olwg, ond gadawon y Bala wedi mwynhau ein hamser yng Nglan-llyn. Tom Hall Williams, Bl 13.





## Cogurdd

Llongyfarchiadau i Alfred Jones, Blwyddyn 5 am ddod yn fuddugol yng nghystadleuaeth Cogurdd Morgannwg Ganol. Bydd Alfred yn cynrychioli'r rhanbarth yn Eisteddfod yr Urdd Maldwyn.

## Taith ECCA i Wlad Belg

Fel rhan derfynol o'r prosiect ECCA, aethon ni ar daith deuddydd i Brussels, sef prifddinas Gwlad Belg. Yn gyntaf, er mwyn teithio i wlad Belg, teithion ni ar drên i Lundain ac yna ar yr Eurostar i Brussels. Ar ôl i ni gyrraedd Brussels, aethon ni i'r ddinas er mwyn archwilio, ac wrth gwrs roedd rhaid i ni brynu waffles enwog Gwlad Belg ac fel roeddwn ni'n disgwyl, roedden nhw'n flasus dros ben! Yna, yn y prynhawn, aethon ni allan am bryd o fwyd mewn bwyty yng nghanol y ddinas, cyn mynd yn ôl i'r gwesty am noson dda o gwsg ar ôl diwrnod hir o deithio ac archwilio'r ddinas.

Y diwrnod wedyn, roedd hi'n amser am y gynhadledd ECCA. Yn ystod y gynhadledd, roedd yna gyfle i ni fel disgyblion arddangos ein fideo ac esbonio i bobl pam fod y Gymraeg mor bwysig i ni. Roedd hi hefyd yn gyfle gwych i ni siarad unwaith eto gyda rhai o'n ffrindiau o'r campws ECCA yn Mallorca. Dyma oedd un o uchafbwyntiau ein taith ni. I orffen y gynhadledd, roedd yna gyfle i ni drafod sut gall ieithoedd lleiafrifol ddenu sylw gan yr Undeb Ewropeaidd ac Ewrop gyfan. Dysgon ni am y problemau mae ieithoedd lleiafrifol yn wynebu o fewn Ewrop heddiw. Hefyd, siaradon ni am y problemau mae'r Gymraeg yn ei hwynebu heddiw. I orffen ein taith, cerddon ni o amgylch y ddinas er mwyn gwneud bach o siopa cyn mynd yn ôl ar y trên a dychwelyd i Gymru. Cawsom ni brofiad ardderchog a chyfleoedd di-ri i ddysgu am ein hiaith ac ieithoedd lleiafrifol eraill o fewn Ewrop. Rydym yn ddiolchgar iawn am y profiad gwych yma.







## Llwyddiannau Chwaraeon yr Ysgol Ganol

Llongyfarchiadau i Maise Fowler am ennill y ras 50m dull rhydd a dod yn ail yn y 100m dull rhydd a 50m dull cefn yng nghystadleuaeth nofio Rhondda Cynon Taf.
Llongyfarchiadau i Elai Button am ddod yn ail yng nghystadleuaeth British Open BKG Knockdown.
Llongyfarchiadau i Lowri Phillips a Nel Williams am gael eu dewis i ymuno ag Academi'r FAW.
Llongyfarchiadau i Rowan Carson am ddod yn 1af yng nghystadleuaeth Rhyng-Ysgolion Cymru yn ddiweddar.
Llongyfarchiadau i Isla Carson am ddod yn 2ail yng nghystadleuaeth trawsgwlad Ysgolion Morgannwg a'r Cymoedd.
Llongyfarchiadau i Bencampwr newydd Trampolîn Cymru - Cameron Sealey - da iawn!
Yn ddiweddar mae tîm pêl droed y merched wedi bod yn llwyddiannus mewn twrnamaint RhCT gyda nifer o'r chwaraewyr yn cael eu canmol - da iawn ferched!

Da iawn i chi gyd!











## Hanner Marathon Caerdydd

Llongyfarchiadau i staff yr Ysgol am redeg hanner marathon Caerdydd nôl ym mis Hydref. Da iawn chi – ysbrydoliaeth i ddisgyblion yr ysgol!



